CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD



# Canllaw i Rieni a Chefnogwyr

## Ar Addysg Uwch ym Mhrifysgol Caerdydd

**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/parents-and-supporters**

# Contents


| | |
|---|---|
| Helo! | 3 |
| Termau allweddol | 4 |
| Pam mynd i Brifysgol? | 6 |
| Caerdydd: Prifddinas Braf | 8 |
| Llety | 10 |
| Dewis cwrs | 13 |
| Cwestiynau Cyffredin | 14 |
| Y prif lwybrau mynediad at Addysg Uwch | 15 |
| Amserlen UCAS | 16 |
| Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd | 18 |
| Cyllid Myfyrwyr | 19 |
| System ad-dalu i fyfyrwyr newydd | 20 |
| Beth allwch chi ei wneud? | 21 |
| Cefnogaeth a chyfleusterau | 22 |




# Helo!

## Mae mynd i'r brifysgol yn gam mawr - ac ym Mhrifysgol Caerdydd rydyn ni'n cymryd ein camau mwyaf gyda'n gilydd.

Os yw eich plentyn neu ddibynnydd yn awyddus i adael cartref i barhau ag addysg, rydyn ni'n deall bod hwn yn ddigwyddiad arwyddocaol iawn ac y byddwch am eu cefnogi mewn unrhyw ffordd y gallwch. Fodd bynnag, gall y broses o ddod o hyd i le mewn prifysgol, ac yn wir lywio drwy fywyd prifysgol ei hun, fod yn dipyn o ddirgelwch.

Os hoffech chi wybod sut mae'r broses ymgeisio'n gweithio, neu os ydych chi'n poeni am ochr ariannol mynd i'r brifysgol neu sut i'w helpu i ymgartrefu fel myfyriwr, bydd y llyfryn hwn yn cynnig trosolwg cyffredinol o'r hyn i'w ddisgwyl ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yn ceisio ateb cwestiynau allweddol am addysg uwch yn gyffredinol.

Prifysgol Caerdydd yw'r unig brifysgol yng Nghymru sydd yng Ngrŵp Russell, ac mae ganddi lawer i'w gynnig i fyfyrwyr. Rydyn ni'n arbennig o falch o fod wedi cael cadarnhad yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf bod 90% o'n hymchwil yn arwain y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol*. Mae cyfleusterau addysgu modern, y darlithwyr arbenigol a'r llwyddiant eithriadol o ran cyflogaeth graddedigion yn golygu bod Caerdydd yn parhau i fod yn ddewis poblogaidd ymysg myfyrwyr. Cyfunwch hynny gyda lleoliad yn y brifddinas ac fe gewch chi brofiad myfyriwr gwych o'r dechrau i'r diwedd – ond fe soniwn fwy am hyn maes o law.

Mae sawl ffordd o helpu wrth gyflwyno cais (ac wedi hynny). Boed hynny'n golygu helpu i ymchwilio i brifysgolion a chyrsiau, mynd i ddiwrnodau agored, neu fod wrth law i drafod eu dewisiadau gyda nhw, bydd eich cefnogaeth o gymorth mawr. Bydd y cwrs a'r brifysgol y bydd yn eu dewis yn dibynnu ar gymeriad a diddordebau eich plentyn. Cymerwch ran, cymerwch ddiddordeb a byddwch yn gefnogol - bydd eich mab neu ferch yn ei werthfawrogi'n fawr.

*Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021.

Ceir rhagor o wybodaeth yn **www.cardiff.ac.uk/cy/research/impact-and-innovation/quality-and-performance.**
**Cynnwys**



# Termau allweddol

**Wrth i chi ddechrau edrych ar opsiynau prifysgol a'r broses ymgeisio, mae'n debygol y byddwch chi'n dechrau clywed rhai termau cyffredin a allai swnio ychydig yn estron. Rydyn ni'n esbonio rhai allweddol isod.**

### UCAS: Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau

Bydd myfyrwyr yn gwneud cais, yn ei olrhain ac yn derbyn cynigion gan brifysgolion drwy UCAS

### Datganiad personol

Ar hyn o bryd disgwylir i fyfyrwyr ysgrifennu datganiad, hyd at 4,000 o nodau, sy'n rhoi manylion pam y dylid ystyried cynnig lle iddyn nhw ar eu cwrs dewisol. Bydd hyn yn newid ar gyfer mynediad 2026 i fformat tri chwestiwn yn hytrach na blwch testun rhydd. Dylai'r datganiad hwn fod yn benodol, yn bositif ac yn unigol i bob myfyriwr. Bydd profiad gwaith a gweithgareddau allgyrsiol yn sicr o fudd, ond cofiwch gysylltu'r sgiliau/gallu â'r cwrs ei hun.

### Cynnig amodol

Os bydd myfyriwr yn derbyn cynnig amodol gan y brifysgol o'u dewis, mae hyn yn golygu eu bod wedi cael cynnig lle wedi'i gadarnhau i astudio yn y sefydliad ond bod yn rhaid bodloni gofynion penodol (graddau arholiad fel arfer) cyn 31 Awst.

### Cynnig diamod

Mae Cynnig Diamod yn golygu bod prifysgol yn fodlon derbyn y myfyriwr ni waeth beth fydd canlyniad unrhyw arholiadau sydd ar y gweill.

### Dewis cadarn


Ar ôl cael penderfyniad gan bob prifysgol, bydd y myfyriwr yn dewis un brifysgol fel Dewis Cadarn. Dyma fydd eu dewis cyntaf o brifysgol, a'r un y mae wir am ei mynychu.

### Dewis wrth gefn

Bydd myfyrwyr yn dewis prifysgol fel dewis wrth gefn hefyd. Dyma fydd y dewis wrth gefn os na fodlonir gofynion penodol y Dewis Cadarn.

### Semester

Rhennir y flwyddyn academaidd yn ddau semester: Bydd Semester yr Hydref rhwng diwedd Medi a mis Ionawr; a bydd Semester y Gwanwyn rhwng diwedd Ionawr a mis Mehefin.



“**Dechreuodd fy mab fynd i ddiwrnodau agored yng ngwanwyn Blwyddyn 12, i gael syniad o beth oedd ar gael yn y brifysgol o gymharu ag edrych am brentisiaeth neu swydd, yr oedd hefyd yn eu hystyried.** Bryd hynny nid oedd wedi penderfynu pa gwrs y byddai ganddo ddiddordeb yn ei astudio, felly aeth i sawl cyflwyniad pwnc yn ei ddiwrnod agored cyntaf. Gwnaeth hyn ei helpu i leihau’r dewis i ddau bwnc ar gyfer y diwrnodau agored nesaf yr aethon ni iddyn nhw. Gwnaeth yr ymweliadau hyn ei alluogi i benderfynu y byddai’n well ganddo wneud gradd anrhydedd sengl na chydanrhydedd, ac erbyn hynny roedd wedi penderfynu pa bwnc y byddai wir yn hoffi ei astudio. Yna, gallai ymchwilio i fwy o brifysgolion oedd yn cynnig y cwrs roedd yn ei hoffi a phenderfynu pa rai oedd fwyaf addas iddo. Drwy ddechrau edrych yn gynnar yn y flwyddyn roedd ganddo’r amser i wneud hyn cyn bod angen iddo ddechrau llenwi ei ffurflen gais.”



# Pam mynd i Brifysgol?

**Ar ôl gadael yr ysgol, gallai pobl ifanc ddewis parhau â'u haddysg, cwblhau prentisiaeth, dechrau gwaith cyflogedig amser llawn neu gymryd blwyddyn i ffwrdd. Gyda chynifer o opsiynau ar gael, dyma benderfynu edrych ar pam fod myfyrwyr yn dewis prifysgol.**

## Gwella eu rhagolygon gyrfa

Mewn marchnad swyddi mor gystadleuol, gall sicrhau gradd wella rhagolygon pobl ifanc yn sylweddol o ran gyrfa. Bydd astudio yn y brifysgol yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ffynnu yn y gweithle. Ar ben hynny, mae rhai proffesiynau, fel Meddygaeth a'r Gyfraith, lle mae gradd yn hanfodol.

Er na allwn honni bod gradd bob amser yn gwarantu cyflogaeth, bydd ansawdd yr addysgu a'r cymorth a gynigir trwy gydol eu cyfnod yn y brifysgol yn sicr o'u rhoi ar ben ffordd. Cânt gyfle i weithio'n unol â safonau diwydiant, dysgu gan arbenigwyr sydd ar flaen y gad yn eu maes a chael eu cefnogi gan dîm Gyrfaoedd gweithgar iawn, yn ogystal â'r ystod o wasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn y Ganolfan Bywyd Myfyrwyr. Nid yn unig hynny, ond bydd ein rhwydwaith ni yn dod yn rhwydwaith iddyn nhw hefyd, a byddan nhw'n elwa o ystod enfawr o gysylltiadau â diwydiant a chyflogwyr.

## Ennill mwy o gyflog

Mae'r ystadegau'n dangos bod graddedigion yn ennill cryn dipyn yn fwy na'r rheini sydd heb gymhwyster Addysg Uwch. Gyda gradd y tu ôl iddyn nhw, bydd ystod ehangach o opsiynau ar gael i raddedigion. Gan ddibynnu ar eu meysydd dewisol, gallai fod yn haws iddyn nhw symud ymlaen yn eu gyrfa, a gwneud hynny'n gyflymach.

## Astudio pwnc maen nhw'n teimlo'n frwdfrydig yn ei gylch

Mae angerdd a brwdfrydedd dros y pwnc yn ddau o'r ffactorau mwyaf i'w hystyried wrth benderfynu beth i'w astudio yn y brifysgol. I rai myfyrwyr, bydd hyn yn seiliedig ar y pwnc maen nhw wedi ei fwynhau fwyaf yn yr ysgol neu'r coleg. Gan nad oes angen profiad blaenorol yn y maes ar bob pwnc, bydd myfyrwyr eraill yn gosod her i'w hunain drwy astudio pynciau cyffrous nad ydyn nhw wedi cael y cyfle i wneud o'r blaen. Gallai myfyrwyr eu canfod eu hunain ar gloddfeydd archeolegol, yn gwneud gwaith maes ac yn y labordy, yn ymgolli mewn adnoddau gwreiddiol a chyfnodolion, yn trafod testunau a damcaniaethau neu'n cyfansoddi cerddoriaeth hyd yn oed. Pa bwnc bynnag y byddan nhw'n ei ddewis, byddan nhw'n ennill dealltwriaeth drylwyr o'u disgyblaeth ddewisol ac yn ffynnu mewn amgylchedd llawn pobl o'r un anian.

> **"Mae myfyrwyr Caerdydd yn amlygu'r ddawn, y cymhelliant a'r brwdfrydedd y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw."**
>
> **Paul Davies**, Partner, Latham and Watkins LLP (Cwmni Cyfreithiol Rhyngwladol ac yn y DU)

## Bod yn annibynnol

Mae Prifysgol yn gadael i fyfyrwyr eu herio eu hunain yn academaidd ac yn bersonol, a hefyd i fod yn annibynnol a chael eu traed danynt. Byddan nhw'n wynebu heriau newydd fel byw oddi cartref am y tro cyntaf, cyllidebu, coginio ac (o bryd i'w gilydd) golchi eu dillad eu hunain, a'r cyfan wrth ymgartrefu yn eu cymuned newydd! Bydd gweithio, astudio a chymdeithasu gyda'u cyfoedion yn helpu myfyrwyr i fagu hyder hefyd.

## Datblygu sgiliau allweddol

Yn ogystal â rhoi hwb i'w hannibyniaeth a'u hunanhyder, bydd eich plentyn yn meithrin nifer o sgiliau pwysig eraill, sy'n amrywio o gyfathrebu a gweithio mewn tîm i arwain a datrys problemau yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Boed yn hynny'n golygu paratoi cyflwyniad seminar grŵp, cymryd rhan yn un o'r clybiau a chymdeithasau niferus neu fwynhau bywyd myfyriwr o ddydd i ddydd, bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau personol yn barhaus, fydd yn eu galluogi i addasu i sefyllfaoedd newydd yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol yn ogystal â'u bywydau bob dydd.

# 11eg

**yn y DU ar gyfer effaith**
Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021

# Grŵp Russell

**Rydyn ni'n falch o fod yr unig Brifysgol Grŵp Russell yng Nghymru**

# 95%

**Roedd 95% o'n graddedigion yn gweithio a/neu'n astudio ymhellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud pethau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.**

Ffynhonnell: Arolwg Hynt Graddedigion 2021/22 yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, a gyhoeddwyd gan HESA ym mis Mehefin 2023. Yn cynnwys Data HESA: Hawlfraint yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) Cyf 2023. Ni all yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gasgliadau gan drydydd parti o ganlyniad i'w data.





# Caerdydd: Prifddinas Braf

Mae myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd yn elwa o bopeth sydd gan brifddinas fywiog Cymru i'w gynnig. Mae campws Cathays dafliad carreg o ganol y ddinas, gyda'i holl gyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol a theithio.

Mae Caerdydd yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gyfleusterau y byddech chi'n eu disgwyl mewn prifddinas, ac yn ddigon agos atoch i gadw ei naws, ei chymeriad a'i chynhesrwydd unigryw. Dyma **ddinas fwyaf cyfeillgar y DU**, lle caiff myfyrwyr eu croesawu'n dwymgalon i'r gymuned amrywiol, yn ôl pleidlais yn 2023 (Condé Nast).





## Diwylliant a Chwaraeon

Beth bynnag sy'n mynd â'ch bryd, fe'i cewch yma, gan fod Caerdydd yn llawn caffis, tafarndai a lleoliadau hamdden eraill. Bydd gennych chi ddewis o sioeau cerdd mawr neu ddramâu annibynnol Cymraeg, rygbi rhyngwladol neu rafftio dŵr gwyn, cyngherddau arena neu nosweithiau meic agored, yn ogystal â chlybiau comedi, sinemâu, amgueddfeydd, orielau a mwy.

Byddwch hefyd yn dod ar draws marchnadoedd a siopau 'vintage', bwyd stryd a bywyd nos, anturiaethau awyr agored a mannau tawel - mae Caerdydd wir yn cynnig rhywbeth i bawb.

Os ydych chi'n mwynhau fforio, mae'r ddinas wedi'i hamgylchynu â harddwch naturiol sy'n hawdd ei chyrraedd. Mae Parc Cenedlaethol bydenwog Bannau Brycheiniog 40 munud i ffwrdd a dyw'r traethau arobryn ar hyd Penrhyn Gŵyr ddim yn bell chwaith.

## Awgrym Defnyddiol

Pan fyddwch chi'n ymweld, beth am gyfuno hyn â thrip i Ganolfan Mileniwm Cymru i weld un o'r sioeau sydd i'w gweld yno?

**www.wmc.org.uk**

**"Mae Caerdydd yn brifddinas lewyrchus a deniadol sy'n cael ei chydnabod yn gyffredinol fel lle neilltuol o dda i fyw." "**

The Complete University Guide

## Cysylltiadau trafnidiaeth

Mae gan Gaerdydd gysylltiadau trafnidiaeth gwych sy'n golygu bod modd ei chyrraedd yn rhwydd o'r rhan fwyaf o ddinasoedd mawr y DU. Er enghraifft, mae Llundain lai na dwy awr o daith ar wasanaethau trên uniongyrchol, rheolaidd o orsaf drenau Caerdydd Canolog

## Bywyd nos

P'un a yw'n well gan bobl ifanc bartïo yn un o'r tafarndai a chlybiau nos niferus, neu gael tamaid i'w fwyta cyn gwylio sioe, maen nhw'n siŵr o ddod o hyd i ddigonedd o bethau i'w mwynhau yng Nghaerdydd. Bydd ein cynllun tacsi diogel yn gwneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd adref yn ddiogel ar ddiwedd y noson hefyd.



Beth sy'n gwneud prifddinas Cymru mor ddeniadol? Sganiwch i gael gwybod – cod QR rhesymau i garu Caerdydd

# Llety

**Gall symud oddi cartref am y tro cyntaf fod yn gyffrous ac yn frawychus... i fyfyrwyr a rhieni fel ei gilydd! Mae preswylfeydd Prifysgol Caerdydd yn cynnig bywyd cyfforddus ac annibynnol i fyfyrwyr am bris rhesymol.**

Mae byw yn llety'r Brifysgol hefyd yn cynnig y cyfle perffaith i gwrdd â myfyrwyr blwyddyn gyntaf eraill o amrywiol gefndiroedd a chyrsiau, ac mewn llawer o achosion, gwneud ffrindiau oes.

Caiff lle yn llety'r Brifysgol ei warantu i bob myfyriwr sydd â chynnig cadarn ac yswiriant, cyn belled â'u bod yn cadw at derfynau amser penodol. Mae gennym ni ddewis o 17 neuadd breswyl – gyda llawer ohonynt o fewn pellter cerdded i ganol y ddinas a'r ddau gampws. Gyda dewis o lety hunanarlwyo a llety wedi'i arlwyo'n rhannol, mae opsiynau ar gael i amrywiol gyllidebau. Wrth drafod y dewisiadau llety, bydd o fudd i chi ystyried pa gyfleusterau sydd bwysicaf iddyn nhw. A yw en-suite, er enghraifft, yn bwysicach na rhent sydd ychydig yn is? Neu a fyddai'n well cael cyfle i wneud cais am le barcio ar y safle?

## Cyfleusterau

Gall myfyrwyr ddisgwyl i'r cyfleusterau canlynol gael eu darparu yn ystod eu harhosiad ym mhreswylfeydd Prifysgol Caerdydd:

- Gwely a matres
- Desg astudio a chadair
- Cwpwrdd dillad
- Cegin/ystafell fwyta i'w rhannu, gan gynnwys tostiwr, tegell a microdon
- Cyfleusterau golchi dillad
- Mannau storio beiciau
- Wi-fi am ddim
- Mannau cysylltu â'r rhwydwaith
- Yswiriant eiddo personol Endsleigh

Mae yna hefyd nifer o gyfleusterau dewisol i'w hystyried wrth wneud cais am lety. Er enghraifft, gall myfyrwyr benderfynu gwneud cais am gartref:

- Gyda cyfleusterau parcio
- Hunanarlwyo neu'n rhan-arlwyo
- Gyda ensuite neu ystafell ymolchi a rennir
- Gyda chyfleusterau chwaraeon ar y safle
- Opsiwn bywoliaeth tawel






## Bywyd Preswyl

Mae ein preswylfeydd yn cynnig cymuned gefnogol a chyfeillgar ac mae'r tîm Bywyd Preswyl yn cynnal digwyddiadau cyffrous i'ch helpu i deimlo'n gartrefol.

## Cymorth

I sicrhau diogelwch ein myfyrwyr, mae gennym gyfleusterau diogelwch 24/7 yn ogystal â Chynorthwywyr Bywyd Preswyl, sydd ar y safle i gynorthwyo myfyrwyr os bydd unrhyw broblemau'n codi. Mae'r Tîm Bywyd Preswyl yn ymroi i wella profiad myfyrwyr, gan helpu i greu cymuned yn y preswylfeydd lle mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu cynnwys

Yn ogystal â hyn, mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn rhedeg cynllun tacsi diogel i wneud yn siŵr bod myfyrwyr yn dychwelyd adref yn ddiogel gyda'r nos. Gall myfyrwyr sydd heb ddigon o arian i gael tacsi ffonio'r cwmni tacsi lleol y cytunwyd arno, dangos eu cerdyn myfyriwr i'r gyrrwr, cael derbynneb, a thalu'r ffi'n ôl yn Undeb y Myfyrwyr dros y diwrnodau dilynol.

## Llety preifat

Yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, mae mwyafrif y myfyrwyr yn dewis byw gyda ffrindiau mewn llety rhent ger y Brifysgol. Y myfyrwyr fydd yn gyfrifol am ddod o hyd i dŷ addas, trefnu'r cyllid, talu'r rhent a biliau, a choginio a glanhau. Fodd bynnag, bydd digon o gefnogaeth ar gael. Drwy hysbysebu eiddo gan landlordiaid cyfrifol a rhoi cyngor ymarferol, bydd Asiantaeth Cardiff Student Letting (a gaiff ei rhedeg gan Undeb y Myfyrwyr) wrth law i helpu i symud o breswylfeydd y Brifysgol i lety preifat.

**"Symud i neuadd breswyl yw'r peth gorau posibl y gall myfyriwr newydd ei wneud mewn dinas newydd. Mae'n anodd disgrifio amser mor anhygoel ges i yn fy neuadd - rwy'n ei argymell yn gryf i bawb!"**

**Freya**, De Tal-y-bont

## Sylwer:

- Rydyn ni wedi neilltuo fflatiau ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, myfyrwyr LHDT+, yn ogystal â fflatiau di-alcohol a byw'n dawel. Anfonir rhagor o fanylion am sut i wneud cais at ymgeiswyr pan fydd eu cynnig i astudio yn y Brifysgol wedi'i gadarnhau.
- Neuadd breswyl i fenywod yn unig yw Neuadd Aberdâr. Os hoffai eich merch fyw mewn neuadd i fenywod yn unig, gall nodi mai dyma yw ei dewis.
- Gan fod y preswylfeydd yn amrywio o ran nifer y myfyrwyr, a bod rhai'n fwy poblogaidd na'i gilydd, ni ellir gwarantu y cewch le yn y preswylfeydd sydd orau gennych chi.

Gwyliwch y fideo am breswylfeydd i gael rhagor o wybodaeth
**www.cardiff.ac.uk/residences**

Mae rhent preswylfeydd Prifysgol Caerdydd yn amrywio o £130 - £169 yr wythnos*
*Prisiau'n gywir ar gyfer mynediad 2024/25. Ewch i'r wefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae rhent yn daladwy drwy Ddebyd Uniongyrchol fesul tri rhandaliad (fel arfer ym mis Hydref, Ionawr ac Ebrill). Mae pob rhent yn cyfeirio at lety deiliadaeth sengl.



# Dewis cwrs

**Gyda thros 300 o raglenni gradd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd, efallai y bydd myfyrwyr yn ansicr pa un fydd fwyaf addas ar eu cyfer.**

**Bydd y cwrs cywir yn dibynnu ar ba fath o ddysgwr ydyn nhw, y pynciau maen nhw'n eu mwynhau a'r profiadau maen nhw'n gobeithio eu cael. Gallwch helpu drwy eu hannog i ystyried y ffactorau canlynol:**

## Rhaglenni wedi'u teilwra

O ganiatáu i'n myfyrwyr ohirio eu dewis terfynol o raglen gradd tan ddiwedd y flwyddyn gyntaf, i deilwra rhaglen gradd i weddu i'w diddordebau, i dreulio blwyddyn dramor neu yn y diwydiant; ein nod yw cynnig hyblygrwydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae strwythur ein rhaglenni gradd yn nodwedd hynod boblogaidd. Os yw myfyrwyr yn frwdfrydig ynglŷn â dau bwnc penodol, efallai y byddan nhw hefyd am ystyried un o'n graddau Cydanrhydedd. Byddai hyn yn caniatáu iddyn nhw astudio dau bwnc ochr yn ochr. Beth am edrych ar y wefan neu'r prosbectws i weld pa bynciau y gellir eu cyfuno?
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate**

## Cyfleoedd i astudio a gweithio: gartref a thramor

Mae nifer o gyrsiau, fel Peirianneg a Seicoleg, yn caniatáu i fyfyrwyr ymestyn eu hastudiaethau i raglen bedair blynedd, er mwyn ymgymryd â blwyddyn mewn lleoliad proffesiynol neu ym myd diwydiant. Gyda chyfle i ddefnyddio eu gwybodaeth newydd yn y gweithle, rhwydweithio gyda chyflogwyr ac efallai ennill cyflog, mae'n bosibl y byddan nhw'n awyddus i fanteisio ar hyn. Yn yr un modd, mae blwyddyn neu semester dramor yn opsiwn poblogaidd arall i'r rheini sy'n chwilio am her mewn amgylchedd newydd sbon. Mae ein cysylltiadau â thros 300 o sefydliadau ledled y byd yn caniatáu i ni gynnig llawer o gyfleoedd cyffrous ac amrywiol

## Amserlen

Mae gofynion yr amserlen yn amrywio o bwnc i bwnc. Mae'r rhain yn cynnwys darlithoedd, seminarau, tiwtorialau a (lle bo'n berthnasol) teithiau maes ymarferol a gwaith labordy. Yn gyffredinol, gall myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gwyddonol ddisgwyl treulio rhwng 20 a 30 o oriau'r wythnos yn y brifysgol. Ar y llaw arall, gall myfyrwyr sy'n astudio pynciau sy'n seiliedig ar y dyniaethau ddisgwyl tua 10 i 15 o oriau cyswllt bob wythnos. Disgwylir i'r amser sy'n weddill gael ei dreulio'n gweithio'n annibynnol, yn cyflawni gwaith ymchwil ac gwneud gwaith darllen cefndir, cwblhau gwaith prosiect ac ysgrifennu traethodau. Bydd dulliau asesu'n amrywio rhwng cyrsiau, ond bydd yn aml yn cynnwys gwaith cwrs, arholiadau a gwaith ymarferol a asesir.

## Cyrsiau gofal iechyd

Gall cyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gampws Parc y Mynydd Bychan, gynnwys lleoliadau clinigol mewn ysbytai a sefydliadau cymunedol ledled Cymru. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i gymharu'r gwahanol anghenion ar gyfer gweithio yn y ddinas ac mewn lleoliadau gwledig. Yn dibynnu ar y cwrs y byddan nhw'n ei ddewis, bydd cyfle i rai myfyrwyr hefyd gael profiad clinigol dramor.

# Cwestiynau Cyffredin

## A yw gradd Cydanrhydedd yn fwy o waith nag Anrhydedd Sengl?

Bydd y rheini sy'n astudio gradd Cydanrhydedd yn gweithio tuag at yr un nifer o gredydau â'r rheini sy'n dewis gradd Anrhydedd Sengl. Mae hyn yn golygu y bydd y llwyth gwaith yr un fath, ac y bydd yn cael ei rannu rhwng yr holl bynciau a gaiff eu hastudio. Mae'n bwysig i fyfyrwyr reoli eu llwyth gwaith yn effeithlon er mwyn bodloni pob dyddiad cau. Fel arfer, bydd y ddau bwnc a gaiff eu hastudio yn ategu ei gilydd, sy'n golygu eu bod yn mynd law yn llaw, ac y gall y naill elwa ar y llall.



## Beth yw'r prif lwybrau mynediad at Addysg Uwch?

Mae nifer o ffyrdd i gael mynediad at Addysg Uwch. Dangosir y ffyrdd mwyaf cyffredin ar dudalen 15.

## Beth am flwyddyn i ffwrdd?

Sut maen nhw'n cael eu hystyried. Mae llawer o gyrsiau'n derbyn ceisiadau i ohirio mynediad. Mae hyn yn golygu y bydd lle yn y brifysgol i fyfyrwyr pan fyddan nhw'n dychwelyd ar ôl cymryd blwyddyn i ffwrdd. Os defnyddir yr amser hwn yn dda, gall blwyddyn i ffwrdd fod yn fuddiol dros ben, ac mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn eu derbyn. Mae pobl sy'n treulio amser yn teithio, yn gweithio neu'n gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn i ffwrdd yn meithrin llawer o sgiliau a phrofiadau sy'n berthnasol i'w cais ac i'w cwrs dewisol. Mae hefyd yn caniatáu i'r rheini sy'n dal i fod ychydig yn ansicr ynglŷn â'u cwrs dewisol dreulio amser yn gwneud gwaith ymchwil pellach, gan ddychwelyd i fyd addysg yn fwy pendant eu barn. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn cael gwybod beth yw barn pob sefydliad unigol am gymryd blwyddyn i ffwrdd.

## Ble mae myfyrwyr yn astudio?

Mae Campws y Brifysgol ym Mharc Cathays yng nghanolfan ddinesig Caerdydd, ac mae'n agos iawn i ganol y ddinas. Mae'r rhan fwyaf o'n hysgolion academaidd wedi'u lleoli yma. Mae'r Ysgol Deintyddiaeth, Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd a'r Ysgol Meddygaeth ar Gampws Parc y Mynydd Bychan, ac yno hefyd mae Ysbyty Athrofaol Cymru. Er y bydd myfyrwyr yn yr ysgolion uchod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ar gampws Parc y Mynydd Bychan, mae'n bosibl y bydd rhai modiwlau'n cael eu haddysgu ar draws y ddau gampws.

# Y prif lwybrau mynediad at Addysg Uwch

**Blwyddyn 11 neu flwyddyn gyfatebol**

**Gradd C TGAU neu radd 4 mewn o leiaf 5 pwnc, neu gymhwyster cyfatebol arall**

↓ ↓ ↓

**Blwyddyn 12/13 neu flwyddyn gyfatebol**

**Astudiaeth Safon UG/Safon Uwch* (GCE neu VCE)**

**Diploma, BTEC Nat. Diploma neu Lefel NVQ**

**IB neu gymhwyster cyfatebol arall**

↓ ↓ ↓

**Mynediad i Addysg Uwch gyda graddau gofynnol mewn pynciau priodol. Efallai y bydd angen cyfweliadau neu brofion eraill.**

**Noder: os yw ymgeisydd wedi cwblhau Bagloriaeth Cymru neu'r Cymhwyster Prosiect Estynedig, bydd y rhain yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chymwysterau Safon Uwch. Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru Mae Prifysgol Caerdydd yn derbyn Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru ar gyfer mynediad i bob un o'i rhaglenni gradd israddedig. Bydd y cymhwyster yn cael ei dderbyn yn lle un cymhwyster Safon Uwch ar yr un radd, ac eithrio unrhyw bynciau penodol sydd eu hangen ar gyfer y cwrs.

## Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch

Mae Prifysgol Caerdydd yn derbyn Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch ar gyfer mynediad i'w holl raglenni gradd israddedig. Bydd y cymhwyster yn cael ei dderbyn yn lle un Safon Uwch ar yr un radd, ac eithrio unrhyw bynciau penodol sy'n ofynnol ar gyfer y cwrs.

Allwedd: Tystysgrif Addysg Gyffredinol **TGAU**, Tystysgrif Addysg Gyffredinol **GCE**, Tystysgrif Addysg Alwedigaethol **VCE**, Lefel Uwch Safon Uwch, Addysg Uwch AU, Uwch Atodol Uwch **UG** (Blwyddyn 1af Safon Uwch), **NVQ** Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol, Bagloriaeth Ryngwladol **IB**

## Chymhwyster Prosiect Estynedig

Rydyn ni'n ceisio cefnogi ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Prosiect Estynedig trwy gydnabod A yn y cymhwyster hwnnw a gostwng y gofynion mynediad un radd ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll Safon Uwch (a Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch/Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru), i bob rhaglen heblaw Deintyddiaeth (BDS), Meddygaeth (MBBCh) a'r DipHE mewn Hylendid Deintyddol.

Er enghraifft, byddai cynigion Safon Uwch AAB ar gyfer ymgeisydd sy'n astudio'r Prosiect Estynedig yn cael eu newid i "AAB o 3 chymhwyster Safon Uwch neu ABB o 3 Safon Uwch a gradd A yn y Cymhwyster Prosiect Estynedig". Noder bod yn rhaid bodloni gofynion sy'n benodol i'r pwnc o hyd.

# Amserlen UCAS

**Cyn mis Medi:**
Cyn gwneud cais

Dylid treulio'r misoedd cyn y cam ymgeisio yn ymchwilio a mynd i ddiwrnodau agored i wneud yn siŵr bod myfyrwyr yn gwneud penderfyniad gwybodus a hyderus ynglŷn â pha brifysgolion i wneud cais iddyn nhw. Bydd rhai cyrsiau, yn enwedig y cyrsiau sy'n ymwneud ag iechyd, hefyd yn gofyn am brofiad gwaith sy'n dangos dealltwriaeth o'r yrfa berthnasol hefyd. Mae gwaith gwirfoddol yn y gymuned yn werthfawr ar gyfer y cyrsiau hyn hefyd.

**15 Hydref 2024:**
Dyddiad Cau UCAS*

**Mis Hydref i fis Mai**
Derbyn ymatebion gan brifysgolion

Mae'n bwysig nodi y gall rhai prifysgolion ymateb yn gynt i geisiadau nag eraill ac ni ddylai myfyrwyr fynd i banig os nad ydynt wedi clywed yn ôl gan eu sefydliadau dewisol ar yr un pryd â rhai o'u ffrindiau. Ar gyfer mynediad ym mis Medi 2025, mae'n rhaid i bob prifysgol ymateb erbyn 14 Mai i geisiadau a wneir erbyn dyddiad cau mis Ionawr - er y bydd nifer yn anelu at ymateb yn llawer cynt. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu cyfleu i fyfyrwyr drwy UCAS Hub. Fodd bynnag, nid oes rhaid i fyfyrwyr ymateb nes eu bod wedi derbyn pob penderfyniad. Rhaid iddynt dderbyn un brifysgol fel eu Dewis Cadarn ac un fel eu Dewis Yswiriant. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd myfyrwyr hefyd yn dechrau gwneud cais am gyllid myfyrwyr.

*Y dyddiad cau i gyflwyno cais ar gyfer Meddygaeth, Deintyddiaeth, Milfeddygaeth a phrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

Myfyrwyr yn dechrau cyflwyno eu ceisiadau UCAS.

**Medi:**
Ceisiadau ar Agor

Dyddiad cau i gyflwyno cais ar gyfer cyrsiau ym mhob prifysgol arall. Nodir bod ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn 'hwyr'.

*Sylwch fod y dyddiad cau hwn yn ymwneud â dechrau astudio yn 2025.

**29 Ionawr 2025**
Dyddiad Cau UCAS*

**Awst:**
Canlyniadau arholiadau a Chlirio Diwedd Medi

Dechrau yn y brifysgol  Ar ôl i ganlyniadau gael eu cyhoeddi, bydd myfyrwyr sydd wedi bodloni amodau eu cynnig yn cael cadarnhad bod lle iddyn nhw drwy UCAS Hub ac yn cael gwybodaeth yn awtomatig gan y brifysgol. Bydd y rheini sydd heb gael cynnig neu sydd wedi methu bodloni'r gofynion academaidd a osodwyd gan eu dewis cadarn a'u dewis wrth gefn o brifysgol yn cael eu gosod yn y broses Clirio yn awtomatig. Yn ystod Clirio, maen nhw'n gallu cysylltu â phrifysgolion sydd â lleoedd ar gael a gwneud cais amdanyn nhw. Caiff lleoedd gwag eu hysbysebu ar wefan UCAS ac ar wefannau prifysgolion unigol.

**Medi:**
Mae bywyd fel myfyriwr ar fin dechrau

Mae myfyrwyr fel arfer yn dechrau ddiwedd Medi. Bydd y rheini sy'n gadael cartref yn cael ychydig ddyddiau i ymgartrefu yn eu llety a'u hamgylchedd newydd cyn i ddarlithoedd ddechrau. Bydd prifysgolion yn trefnu llawer o ddigwyddiadau hefyd i annog myfyrwyr i wneud ffrindiau ac ymuno â chlybiau a chymdeithasau yn ystod wythnos gyntaf y tymor (Wythnos y Glas). Ar ôl cael amserlenni a darlithoedd rhagarweiniol, bydd myfyrwyr yn dechrau ar eu hastudiaethau a bydd eu bywyd yn y brifysgol yn dechrau go iawn.

Os na fydd myfyrwyr wedi cael unrhyw gynigion gan brifysgol, gallan nhw wneud cais drwy UCAS Extra. Am ragor o fanylion, gweler www.ucas.com

**26 Chwefror - 4 Gorffennaf**
UCAS Extra



# Bwrsariaethau Prifysgol Caerdydd

Rydyn ni’n credu y dylai unrhyw un sydd â’r gallu i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd fod â’r cyfle i wneud hynny, waeth beth fo’u hamgylchiadau ariannol.

Mae darpariaeth bwrsariaethau i fyfyrwyr sy’n dechrau cwrs ym mis Medi 2025 bellach ar gael ar-lein.

Ewch i’n gwefan
**www.cardiff.ac.uk/cy/funding-ug**

## Cyllid Myfyrwyr

Gall ariannu costau prifysgol ymddangos fel tasg amhosibl i ddechrau. Eto gyda'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael gan y llywodraeth ac mewn llawer o achosion, y prifysgolion eu hunain, ni ddylai pryderon ariannol fyth rwystro myfyrwyr rhag mynd i brifysgol.

Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar y cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig, gan gynnwys y cwrs y mae myfyriwr yn ei astudio, lle mae'n byw cyn dechrau cwrs, manylion incwm y cartref ac a yw wedi astudio ar lefel prifysgol o'r blaen.

Os ydych chi'n astudio cwrs gofal iechyd yng Nghymru, er enghraifft Nyrsio, Bydwreigiaeth a Ffisiotherapi, efallai y bydd dau lwybr cyllido ar gael i chi: Arian y GIG i'r rhai sy'n ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cymhwyso (dwy flynedd ar gyfer cwrs gradd neu 18 mis ar gyfer diploma) neu arian Cyllid Myfyrwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:
**www.cardiff.ac.uk/healthcarefunding**



## Ad-daliadau

Mae ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn dibynnu ar incwm yr unigolyn. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar ôl cyrraedd lefel incwm benodol y bydd myfyrwyr newydd yn dechrau ad-dalu'r benthyciadau.
Ar fenthyciadau i fyfyrwyr israddedig, mae myfyrwyr yn ad-dalu 9% o unrhyw enillion uwchben y trothwy hwn. Os bydd myfyriwr yn cael benthyciad ffioedd dysgu a benthyciad cynhaliaeth, bydd y rhain yn cael eu cyfuno mewn un swm, fydd yn cael ei ad-dalu ar ôl i'r myfyriwr orffen y cwrs a phan fydd yn ennill mwy na'r trothwy

# Awgrymiadau defnyddiol

Caiff arian ar gyfer ffioedd dysgu ei dalu'n uniongyrchol i'r Brifysgol. Edrychwch ar ein gwefan am yr wybodaeth ddiweddaraf

I gael rhagor o wybodaeth am yr arian sydd ar gael, a sut i wneud cais, dylech gysylltu â'r corff ariannu perthnasol, sy'n cael ei benderfynu gan ble mae'r myfyriwr yn byw cyn dechrau'r cwrs:

- Lloegr: **www.gov.uk/studentfinance**
- Cymru: **www.studentfinancewales.co.uk**
- Yr Alban: **www.saas.gov.uk**
- Gogledd Iwerddon: **www.studentfinanceni.co.uk**

## System ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ym mis Medi 2024

| | Cyllid Myfyrwyr Cymru | Cyllid Myfyrwyr Lloegr |
|---|---|---|
| Cynllun Ad-dalu SLC | Cynllun 2 | Cynllun 5 |
| Trothwy incwm | £27,295 | £25,000 |
| Cyfradd llog | RPI + hyd at 3% | RPI + 0% |
| Cyfnod ad-dalu | 30 mlynedd | 40 mlynedd |
| Arall | Cynllun Canslo Benthyciadau Cymru Dileu hyd at £1500 o fenthyciad cynhaliaeth pan fyddwch yn gwneud eich ad-daliad benthyciad cyntaf https://www.gov.uk/guidance/welsh-partial-loan-cancellation.cy | |
| Trefniadau ar gyfer Mynediad 2025 | Parhau fel uchod ond yn amodol ar adolygiad blynyddol | Parhau fel uchod |

*Gall y trothwy gynyddu bob blwyddyn
**Yn aros ar £25,000 tan Ebrill 2027 pan fydd yn dechrau codi gyda RPI.

## Enghreifftiau o ad-daliad misol yn seiliedig ar incwm

| Incwm | Cyllid Myfyrwyr Cymru | Cyllid Myfyrwyr Lloegr |
|---|---|---|
| £26,000 | £0 | Cynllun 5 |
| £35,000 | £57.79 | £75 |
| £45,000 | £132.79 | £150 |

I gael rhagor o fanylion am log a'r system ad-dalu ewch i:
**www.gov.uk/repaying-your-student-loan**

**Oeddech chi'n gwybod?**

Siop Swyddi Prifysgol Caerdydd oedd y brifysgol gyntaf yn y DU i dalu cyflog byw i fyfyrwyr.

Gall ymgymryd â gwaith rhan-amser i gael incwm (a phrofiad) ychwanegol fod yn hynod fuddiol. Mae llawer o gadwyni o fariau a siopau manwerthu yng Nghaerdydd, felly gallai myfyrwyr ystyried gofyn am gael eu trosglwyddo o ble maen nhw'n gweithio ar hyn o bryd

Mae Undeb y Myfyrwyr yn rhedeg Siop Swyddi hynod weithgar hefyd. Yma, gall fyfyrwyr ddod o hyd i waith cyflogedig achlysurol, gan gynnwys ym maes manwerthu, mewn bar neu waith llysgenhadol y gall ei ffitio o amgylch ei astudiaethau. Mae'r Brifysgol yn argymell eu bod yn gweithio pymtheg awr yr wythnos ar y mwyaf er mwyn peidio ag effeithio ar astudiaethau academaidd.

Mae cynnig cyngor ar gyllidebu yn un ffordd o helpu eich plentyn i baratoi ar gyfer y brifysgol. Mae'n bosibl nad ydyn nhw wedi arfer derbyn symiau mawr o arian, felly mae'n bwysig eu bod yn gwybod bod rhaid cyllidebu ar gyfer biliau megis rhent, bwyd, golchi dillad, taclau ymolchi, llyfrau, teithio, dillad a chymdeithasu. Efallai y bydd ganddyn nhw gostau eraill fel contractau ffôn symudol neu'n gorfod talu am drwydded teledu. Mae'n werth ystyried pa gyfrif banc myfyriwr fydd fwyaf addas. Manteisiwch i'r eithaf ar ostyngiadau i fyfyrwyr wrth siopa ac wrth deithio, a chwiliwch am ffyrdd o arbed arian o ddydd i ddydd, fel prynu dewisiadau bwyd rhatach. Mae rhagor o wybodaeth am gostau byw myfyrwyr yng Nghaerdydd ar gael yma: **www.cardiff.ac.uk/cy/study/student-life**

# Beth allwch chi ei wneud?

**Fel rhiant/cefnogwr mae nifer o ffyrdd y gallwch chi gynorthwyo eich plentyn neu ddibynnydd i wneud penderfyniadau pwysig ar y cam nesaf ar ôl gorffen ysgol neu goleg i bontio'n esmwyth i addysg uwch.**

## Diwrnodau Agored

Ar ôl casglu gwybodaeth o wefannau a phrosbectysau prifysgolion, y cam nesaf a gaiff ei argymell yw mynd i ddiwrnodau agored a dechrau cymharu prifysgolion. Bydd myfyrwyr yn astudio ac yn byw yn eu dewis ddinas am y 3, 4 neu hyd yn oed 5 mlynedd nesaf - felly mae angen i'r lle wneud iddyn nhw deimlo'n hapus ac yn gyfforddus. Bydd dod gyda nhw i ddiwrnod agored yn gyfle i chi roi ail farn ddefnyddiol iddyn nhw, a bydd hefyd yn gyfle i chi ofyn eich cwestiynau eich hun a chael gwybod rhagor am y ddinas a allai fod yn gartref iddyn nhw cyn bo hir.

I gael rhagor o wybodaeth am ddiwrnodau agored Prifysgol Caerdydd, ewch i **www.cardiff.ac.uk/cy/openday**

## Y broses wneud cais

Caiff myfyrwyr wneud cais am hyd at bum cwrs prifysgol trwy UCAS. Er mwyn cael lle, bydd yn rhaid iddyn nhw argyhoeddi'r brifysgol gyda datganiad personol sy'n cynnwys manylion eu diddordebau academaidd, eu profiad gwaith, eu dyheadau gyrfaol, eu hobïau a'u diddordebau. Bydd hyn yn newid ar gyfer mynediad 2026 pan fydd gofyn i fyfyrwyr ateb 3 chwestiwn yn lle hynny



Ar hyn o bryd mae ganddyn nhw gyfyngiad llym o 4,000 o nodau yn unig. Efallai y byddan nhw am drafod syniadau gyda chi a meddwl am ffyrdd o wneud pwyntiau cryno a chadarnhaol. Bydd cynnig darllen y drafft gorffenedig hefyd yn helpu i osgoi unrhyw wallau sillafu neu deipio syml a allai ddifetha eu cais. Ceir rhagor o gyngor yn:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying**

## Ymgartrefu

Wrth symud oddi cartref am y tro cyntaf, gall cysuron cartref wneud byd o wahaniaeth a'u helpu i ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd. Yn ogystal â sicrhau bod ganddyn nhw'r holl hanfodion i'r gegin ac i'w hystafell, beth am eu helpu i argraffu rhai o'u hoff luniau i addurno'r ystafell â delweddau sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw? Rydyn ni'n argymell caniatáu rhai wythnosau i fyfyrwyr ymgartrefu cyn eu hannog i ddod adref. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw gyfarwyddo â threfn newydd ac amser i ddod i adnabod eu hamgylchedd newydd. Dylid annog myfyrwyr sy'n dewis aros gartref a chymudo i'r brifysgol i ymuno â chlybiau a chymdeithasau ac ymroi i fywyd myfyriwr i'w helpu i bontio i'r brifysgol yn ddidrafferth.

## Cyngor i Fyfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn darparu cyngor ar ystod eang o faterion tai, cymdeithasol ac ariannol.

# Cefnogaeth a chyfleusterau

**Mae astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn golygu y bydd eich mab neu ferch yn rhan o gymuned sy'n gofalu am eu lles. Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth emosiynol ac ymarferol y gellir eu cyrchu ar unrhyw adeg. O gyngor am fywyd yn y brifysgol, cwnsela, cyngor ar yrfaoedd neu gymorth gydag arian, mae ein gwasanaethau cymorth am ddim ac yn ddiduedd.**

**Cangen y feddygfa ar blas y parc**

**Caplaniaeth aml-ffydd**








**Dyma rai o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r myfyrwyr.**

## Tiwtor personol

Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr. Bydd myfyrwyr yn cwrdd â'u tiwtoriaid yn rheolaidd i drafod cynnydd ac unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw. Gan eu bod yn aelodau staff academaidd, bydd y tiwtoriaid yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion academaidd a bugeiliol fel ei gilydd.

## Canolfan Cefnogi Myfyrwyr

Mae gennym ddwy Ganolfan Cefnogi Myfyrwyr, un yng nghyfleuster newydd sbon Canolfan Bywyd y Myfyrwyr ar Gampws Parc Cathays ac un ar Gampws Parc y Mynydd Bychan. Mae gan y canolfannau hyn staff sydd wedi'u hyfforddi i roi gwybodaeth a chyngor ymarferol ynghylch materion gwahanol, gan gynnwys cyllid myfyrwyr a thai, materion sy'n ymwneud â chynnydd academaidd, a chefnogaeth anabledd.

## Bywyd Preswyl

Mae ein Tîm Bywyd Preswyl yn gweithio ar draws holl breswylfeydd y Brifysgol i wella profiad y myfyrwyr. Maen nhw wedi ymrwymo i gynnig profiad pontio cadarnhaol a diffwdan i fywyd yn y brifysgol, a chreu diwylliant sy'n canolbwyntio ar fod yn gymuned, lle mae'r holl fyfyrwyr yn cael ymdeimlad o berthyn a chael eu cynnwys. Drwy gysylltu'r profiad o fyw a dysgu, eu nod yw helpu myfyrwyr i ffynnu a chyflawni eu potensial.

## Cynllun mentora myfyrwyr

Mae  myfyrwyr sy'n mentora yn helpu myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf i oresgyn rhai o'r heriau a wynebir wrth ddechrau yn y Brifysgol. Caiff myfyrwyr newydd eu paru â myfyrwyr o'r un ysgol academaidd sydd wedi eu hyfforddi i'w cynorthwyo wrth iddyn nhw addasu i ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu, yn ogystal â byw oddi cartref.

## Darpariaeth Gymraeg

Er bod yr addysg yn cael ei darparu yn Saesneg yn bennaf mae rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ar gael, ac mae gan y Brifysgol gynlluniau i ddatblygu hyn ymhellach yn y blynyddoedd sydd i ddod. Lle bo'n bosibl, byddwn yn neilltuo tiwtor personol Cymraeg ei iaith i'r rhai y byddai'n well ganddyn nhw siarad Cymraeg. Mae myfyrwyr hefyd yn cael cyflwyno gwaith i'w asesu a sefyll arholiadau yn Gymraeg, waeth ym mha iaith yr addysgir y pwnc. Efallai na fydd modd gwneud hyn mewn rhai meysydd clinigol a gwyddonol. Cewch wybodaeth am gyfleoedd cymorth pellach a'r ysgoloriaethau sydd ar gael, yn: **www.cardiff.ac.uk/cy/coleg-cymraeg-cenedlaethol**



**Ymhlith y gwasanaethau y mae**

- **Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyfrinachol** i fyfyrwyr sydd â dyslecsia neu anableddau, yn ogystal â chynghorydd iechyd meddwl pwrpasol.
- **Cyngor ymarferol a chanllawiau i fyfyrwyr** ar faterion academaidd, cyngor arbenigol ar gyllido, sgiliau trin arian, cyllid brys, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.
- **Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol** i fyfyrwyr sy'n teimlo'n ofidus neu'n bryderus
- **Tîm Gyrfaoedd gweithgar** sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth, gweithdai, digwyddiadau, lleoliadau profiad gwaith, a llawer mwy

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

## Myfyrwyr sy'n Blogio ac Unibuddy

O awgrymiadau astudio i ble i fwyta, i gymdeithasau, teithiau penwythnos a ble i gael eich llyfrau, mae'r myfyrwyr sy'n blogio yn fyfyrwyr go iawn sy'n siarad am brofiad gwirioneddol myfyriwr yng Nghaerdydd.

Nid yn unig hynny, ond mae tîm o lysgenhadon Unibuddy wrth law i ateb eich cwestiynau hefyd. A hwythau'n astudio amrywiaeth o gyrsiau, gall tîm Unibuddy gynnig cipolwg gwerthfawr i chi ar fywyd myfyriwr yng Nghaerdydd mewn sgwrs un i un.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi ffonio neu ebostio ein tîm i gael rhagor o wybodaeth:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/meet-our-students**

## Ydyn ni wedi anghofio rhywbeth?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi ffonio neu ebostio ein tîm i gael rhagor o wybodaeth:


029 2087 4455

ymholiad@caerdydd.ac.uk

www.cardiff.ac.uk/cy

**Cardiff**Cysylltu

www.cardiff.ac.uk

@prifysgolCdydd

facebook.com/prifysgolCdydd

instagram.com/prifysgolCdydd

youtube.com/user/prifysgolCdydd


Credir bod yr wybodaeth yn gywir adeg ei chyhoeddi. Er y gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni all y cyhoeddwyr fod yn gyfrifol am wallau neu hepgoriadau, nac am unrhyw fater sy'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd â chyhoeddi'r wybodaeth hon, neu sy'n codi yn sgil ei chyhoeddi. Cyhoeddwyd gan Adran Marchnata a Chyfathrebu Prifysgol Caerdydd © Hawlfraint 2023. Dyddiad dod i rym - Mehefin 2024.